# ADRODDIAD GAN Y PENNAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD

## ADRODDIAD ER MWYN CEISIO PENDERFYNIAD YNGHYLCH CAIS CYNLLUNIO Rhif 47/2013/0137

## GOSOD 1 TYRBIN GWYNT MICRO-GYNHYRCHU 50Kw GYDA BLWCH RHEOLI A THRAC MYNEDIAD

## Marian Mawr, Cwm, Y Rhyl

### 1. DIBEN YR ADRODDIAD

1.1. Mae'r adroddiad yn gofyn am:

a) Adolygiad o benderfyniad y Pwyllgor Cynllunio ar 17 Ebrill i roi caniatâd cynllunio gydag amodau yn groes i argymhelliad y Swyddog Cynllunio.

b) Os mai'r penderfyniad yn (A) yw rhoi Caniatâd Cynllunio Amodol, penderfynu pa amodau cynllunio i'w gosod ynghlwm wrth y Dystysgrif Penderfyniad.

1.2. Mae'r Pennaeth Cynllunio'n cyfeirio'r cais yn ôl i sylw'r Pwyllgor yn unol â'r Cynllun Dirprwyo, ar ôl ystyried y materion cynllunio defnydd tir a'r sylwadau/wybodaeth a gafwyd ar ôl y penderfyniad i roi caniatâd yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Ebrill 2013.

### 2. CEFNDIR I'R CAIS I AILYSTYRIED

2.1. Ar 17 Ebrill 2013, penderfynodd y Pwyllgor Cynllunio roi caniatâd cynllunio amodol ar gyfer codi tyrbin gwynt 50Kw 46.3m o uchder ym Marian Mawr, gan wneud hynny, yn yr achos hwn, yn groes i argymhelliad y Swyddog Cynllunio ac i bryderon sylweddol a godwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru, Cydbwyllgor Cynghori’r AHNE ac Ymgynghorydd Tirweddu'r Cyngor.

2.2. Efallai y bydd aelodau'n cofio bod y drafodaeth a gafwyd yng nghyfarfod mis Ebrill yn seiliedig ar yr achos o blaid cefnogi ffermwr lleol a'r ymdrechion i arallgyfeirio a lleihau'r ddibyniaeth ar y cyflenwad pŵer traddodiadol o'r grid. Ystyriwyd hefyd fod manteision y datblygiad er mwyn arallgyfeirio fferm ym Marian Mawr yn gwrthbwyso pryderon mawr am yr effaith y gallai'r datblygiad ei chael ar y dirwedd ac ar harddwch yr amgylchedd lleol yn y rhan hon o'r AHNE.

2.3. Mae'r cynllun Dirprwyo cymeradwy o dan baragraff 2.2.13 yn caniatáu'r canlynol:

bod unrhyw gais a benderfynwyd gan y Pwyllgor yn flaenorol, ond a allai, ym marn y Pennaeth Cynllunio, gynrychioli un o'r canlynol, yn cael ei gyfeirio'n ôl i'w ailystyried gan y Pwyllgor. Yn yr achos hwn, mae'r cais yn cael ei ailgyflwyno o dan eitem 2.2.13 (a) yn unig:. -

a) gwyriad sylweddol oddi wrth y Cynllun Datblygu mabwysiedig.

b) Cais a allai gynnwys risg sylweddol o ddyfarnu costau yn erbyn y Cyngor mewn unrhyw apêl cynllunio, her gyfreithiol neu ymchwiliad ombwdsmon dilynol.

**Gohebiaeth / Gwybodaeth a Gafwyd ers Pwyllgor Cynllunio 17 Ebrill**

2.4. Yn dilyn penderfyniad y Pwyllgor ar 17 Ebrill, mae'r Swyddogion wedi derbyn yr wybodaeth / yr ohebiaeth ganlynol sy'n ymwneud â'r penderfyniad hwnnw.

i) Llythyr dyddiedig 25 Ebrill 2013 at holl Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio oddi wrth y Cyng. Carolyn Thomas, Cadeirydd Cydbwyllgor Cynghori AHNE Mynyddoedd Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy. Mae'r llythyr hwn ynghlwm yn **Atodiad 1.**

ii) Llythyr dyddiedig 25 Ebrill 2013 wedi'i gyfeirio at Carl Sargeant, y Gweinidog Tai ac Adfywio oddi wrth y Cynghorydd Carolyn Thomas. Mae'r llythyr hwn yn gofyn i'r Gweinidog ystyried galw'r cais cynllunio i mewn i'w benderfynu gan y Gweinidogion. Hyd yma, nid yw'r Swyddogion wedi cael unrhyw ohebiaeth ffurfiol gan Lywodraeth Cymru ynghylch hyn. Mae'r ail lythyr oddi wrth y Cydbwyllgor Cynghori ynghlwm yn **Atodiad 2**.

iii) e-bost dyddiedig 17 Ebrill 2013 oddi wrth wrthwynebydd unigol, Mr Michael Skuse. Roedd y llythyr hwn yn codi pryderon ynghylch penderfyniad y Pwyllgor, gan awgrymu ei fod yn gwyro’n sylweddol oddi wrth y Cynllun Datblygu Unedol.

iv) Mae'r swyddogion wedi derbyn galwadau ffôn oddi wrth Mr Ian Gorton o Cyfoeth Naturiol Cymru sydd hefyd yn codi pryderon cryf ynglŷn â'r penderfyniad a'i effaith debygol ar y dirwedd warchodedig.

2.5. Ym marn y Swyddogion, o ystyried y materion sy'n berthnasol i'r cais, dylid adolygu'r penderfyniad gwreiddiol a wnaed gan y Pwyllgor i'w gymeradwyo. Mae'r Swyddogion o'r farn y byddai rhoi caniatâd yn cynrychioli gwyriad sylweddol oddi wrth y Cynllun Datblygu mabwysiedig, ac y gallai beryglu'r broses o wneud penderfyniadau yn y dyfodol ynghylch ceisiadau tebyg yn yr AHNE, gan achosi dirywiad pellach i'r polisïau sy'n ceisio amddiffyn Tirwedd sydd wedi'i Phennu'n Statudol. Mae'r Swyddogion o'r farn y dylid rhoi pwys sylweddol i arwyddocâd dynodiad o'r fath, ac i bolisi (ENV2) y Cynllun Datblygu Unedol sy'n ceisio amddiffyn yr AHNE rhag datblygiad sy'n tynnu oddi ar ei chymeriad a'i hymddangosiad. Dylid hefyd roi pwys i ganllawiau Llywodraeth Cymru ym Mholisi Cynllunio Cymru 2012 sy'n cadarnhau bod statws Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yn gydradd o ran harddwch eu tirwedd a'u golygfeydd, a bod yn rhaid rhoi’r statws uchaf iddynt i’w diogelu rhag datblygiadau amhriodol (5.3.6).

2.6. Yn y cyd-destun hwn, gofynnir i'r Aelodau felly adolygu'r penderfyniad a wnaed ganddynt ar 17 Ebrill 2013.

2.7. Mae'r adroddiad gwreiddiol gan y Swyddog ynghlwm yn Atodiad 3. Darparwyd gwybodaeth ychwanegol ar daflenni sylwadau hwyr yn y cyfarfod, ac mae'r rhain wedi'u cynnwys yn syth ar ôl adroddiad y Swyddog yn Atodiad 3. Yn ôl yr wybodaeth hon, roedd y cynllun yn brosiect dilys i arallgyfeirio fferm, ond safbwynt y Swyddog oedd mai ond un o'r ystyriaethau materol a oedd yn berthnasol wrth ddod i benderfyniad ynglŷn â'r cais oedd y ffaith honno, ac nad oedd yn gwrthbwyso'r ystyriaeth o'r polisi tirweddu cryf sy'n gysylltiedig â'r AHNE, ac nad oedd yn teilyngu newid yr argymhelliad.

2.8. Wrth adrodd yn ôl am y cais wrth y Pwyllgor, ar sail argymhelliad cryf gan y Swyddog dylid gwrthod y cais yn unol â'r adroddiad gwreiddiol, oherwydd ystyrir bod unrhyw benderfyniad arall yn cynrychioli gwyriad sylweddol oddi wrth y Cynllun Datblygu mabwysiedig, a gallai hynny amharu ar benderfyniadau ynghylch ceisiadau tebyg yn y dyfodol, gan andwyo cymeriad ac ymddangosiad yr AHNE.

3. **ARGYMHELLIAD** :

a) Bod y Pwyllgor yn gwrthod rhoi caniatâd i gais 47/2013/1037 am y rheswm canlynol: -

*1.Barn yr Awdurdod Cynllunio Lleol yw y byddai codi tyrbin 50kW 46 metr o uchder yn y lleoliad hwn yn achosi niwed sylweddol i'r tirweddau gwerthfawr, hardd a diwylliannol o ansawdd uchel a geir yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Mynyddoedd Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, ac y byddai gwneud hynny'n cael effaith andwyol sylweddol ar olygfeydd o gyfeiriad gwylfannau sensitif, gan gynnwys ffyrdd, hawliau tramwy cyhoeddus a thir mynediad agored. Ni ystyrir bod rhinweddau'r cais o ran arallgyfeirio fferm, na'r manteision posibl yn sgil cynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy, yn gwrthbwyso amcanion polisi lleol a chenedlaethol, sy'n ceisio cadw a gwella harddwch naturiol yr AHNE, felly mae'r cais yn groes i bolisïau STRAT 7, GEN 6, ENV1, ENV 2, MEW 8 a MEW 10 yng Nghynllun Datblygu Unedol Sir Ddinbych, ac i'r egwyddorion a nodir yn TAN 8, ac ym Mholisi Cynllunio Cymru 2012.*

b) Os bydd y Pwyllgor yn penderfynu RHOI caniatâd cynllunio, yr ystyrir gosod yr amodau canlynol sydd, yn nhyb y Swyddogion, yn rhesymol ac yn angenrheidiol mewn perthynas â'r cais, ac sy'n trafod materion fel y gwaith adeiladu a gosodiad ac ymddangosiad y tyrbin, sŵn ac amwynder, a threfniadau ar gyfer adfer y safle pan fydd y tyrbin yn cael ei dynnu i lawr. Mae'r amodau a awgrymwyd yn gyson â chaniatadau cynllunio a roddwyd yn flaenorol gan y Cyngor ar gyfer ceisiadau am dyrbinau gwynt 50Kw.

Dyma'r amod(au) a awgrymir:

1. Rhaid dechrau'r datblygiad a ganiateir drwy hyn cyn pen pum mlynedd o ddyddiad y caniatâd hwn.

2. Rhaid i'r caniatâd cynllunio fod am gyfnod o 25 mlynedd o'r dyddiad pan gynhyrchir trydan o'r tyrbin am y tro cyntaf. Rhaid rhoi cadarnhad ysgrifenedig o ddyddiad cynhyrchu trydan o'r datblygiad am y tro cyntaf i'r Awdurdod Cynllunio Lleol, heb fod yn hwyrach na mis calendr ar ôl y digwyddiad.

3. Rhaid i'r tyrbin, y fynedfa i'r safle a'r trac gael eu codi ar y fan sydd wedi'i nodi ar y cynlluniau a gyflwynwyd. Caniateir amrywio hyd at 5 metr ar y lleoliad a nodwyd ar gyfer y tyrbin, ar yr amod nad yw'r tyrbin yn cael ei symud yn nes at unrhyw berthi presennol. Bydd angen cymeradwyaeth ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol ar gyfer unrhyw amrywiad sy'n fwy na 5 metr.

4. Mae'r caniatâd hwn yn ymwneud yn unig â chodi tyrbin gwynt 3 llafn fel y disgrifir yng nghynlluniau a lluniadau'r cais, gyda blaen y llafn ar ei uchaf heb fod yn uwch na 46.3m o lefel wreiddiol y ddaear.

5. Rhaid i orffeniad tŵr y tyrbin, y both a’r llafnau fod yn lled-afloyw. Rhaid i liw'r tŵr tyrbin, y llafnau a'r nasél gael eu cymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol cyn dechrau unrhyw waith i godi'r tyrbin ar y safle.

6. Rhaid i'r caban offer gael ei chodi'n unol â'r cynlluniau cymeradwy, ac ni chaniateir unrhyw offer ategol allanol ychwanegol mewn cysylltiad â gweithrediad y tyrbin, fel blychau mesuryddion, offer switsio a llinellau uwchben na pholion heb gael caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

7. Ni chaniateir arddangos unrhyw enw, logo, arwydd na hysbyseb, na dull goleuo ar unrhyw ran o'r datblygiad heb gael cymeradwyaeth ymlaen llaw gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

8. Rhaid gosod yr holl geblau trydan a rheoli o dan y ddaear.

9. Rhaid i'r holl draciau mynediad dros dro wrth adeiladu a chompownd adeiladu'r safle gael eu tynnu gan adfer y tir i'w broffil a'i gyflwr gwreiddiol cyn pen chwe mis ar ôl y dyddiad pan gynhyrchir trydan o'r datblygiad am y tro cyntaf.

10. Ni fydd sŵn o'r tyrbin yn fwy na $35dB_{LA90,\ 10MIN}$ ar gyfer cyflymder gwynt o hyd at 10m/s ar uchder 10m o'i fesur yn gronnus a dirwystr o'r derbynnydd agosaf sy'n sensitif i sain, yn unol ag ETSU-R-97.

11. Yn achos cwynion i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ynghylch sŵn y gellir ei briodoli i weithrediad y tyrbin, ac ar ôl ymchwiliad cychwynnol gan yr Awdurdod i asesu a oes cyfiawnhad dros y gŵyn honno:
    a) Bydd yr Awdurdod yn hysbysu'r ymgeisydd, mewn ysgrifen, am y gŵyn.
    b) Cyn pen mis ar ôl derbyn hysbysiad gan yr Awdurdod, bydd yn rhaid i'r ymgeisydd drefnu, ar ei gost ei hun, asesiad sŵn gan ymgynghorwyr acwstig

annibynnol, yn unol â brîff a osodir gan yr Awdurdod, er mwyn canfod a yw telerau Amod 10 yn cael eu bodloni.
c) Bydd copi o'r asesiad sŵn a gynhaliwyd yn unol â b) yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod cyn pen dau fis ar ôl dyddiad yr hysbysiad.

12. Os canfyddir bod sŵn y gellir ei briodoli i'r tyrbin yn uwch na'r lefelau a osodwyd yn Amod 10, bydd yn rhaid cyflwyno mesurau lliniaru i sicrhau cydymffurfio ag Amod 10 i'r Awdurdod Cynllunio Lleol, cael cytundeb yr Awdurdod mewn ysgrifen ar gyfer y mesurau hynny, a'u rhoi ar waith o fewn 3 mis. Os na chaiff mesurau lliniaru eu rhoi ar waith o fewn 3 mis, bydd yn rhaid diffodd y tyrbin a pheidio â'i ailgychwyn hyd nes bo'r mesurau lliniaru wedi'u gweithredu.

13. Er mwyn cynorthwyo ymchwiliadau effaith gronnus ac ymchwiliadau i gwynion, bydd yn rhaid i'r ymgeisydd ddiffodd y tyrbin (gweithredu'r brêc i atal y rotor) fel bo modd cynnal ymchwiliadau sŵn mewn lleoliadau cyfagos, ar ôl derbyn cais mewn ysgrifen i'r perwyl hwnnw gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

14. Os bydd yr Awdurdod Cynllunio yn derbyn cwynion y gellir eu cyfiawnhau ynghylch cysgodion symudol gan unrhyw annedd sydd wedi'i meddiannu a oedd yn bodoli, neu y rhoddwyd caniatâd ar ei chyfer, ar adeg rhoi'r caniatâd hwn, hysbysir y datblygwr am hynny mewn ysgrifen, ac fe gytunir ar fesurau lliniaru i reoli, ailgyfeirio neu ddiffodd y tyrbin, hyd nes bo'r amgylchiadau sy'n achosi effeithiau'r cysgodion symudol wedi pasio, a'u rhoi ar waith cyn pen 3 mis ar ôl yr hysbysiad.

15. Os yw'r tyrbin gwynt a ganiateir drwy hyn yn peidio â gweithredu am gyfnod parhaus o 6 mis, bydd yn rhaid datgymalu'r tyrbin gwynt a'r offer ategol a'u symud o'r safle, a thynnu'r sylfeini hyd at isafswm o 1.0m o ddyfnder o dan lefel y ddaear, ac adfer y tir i'w broffil a'i gyflwr blaenorol cyn pen 6 mis ar ôl i'r cyfnod o 6 mis ddod i ben, oni chytunir fel arall â'r Awdurdod Cynllunio Lleol.

16. Heb fod yn hwyrach na 12 mis cyn i gyfnod gweithredol y caniatâd hwn o 25 mlynedd ddod i ben, bydd yn rhaid cyflwyno cynllun i'w ystyried gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol i adfer y safle a'i ddychwelyd i'w broffil a'i gyflwr blaenorol, gan gynnwys datgymalu a chael gwared â'r holl elfennau uwch lefel y ddaear, a thynnu sylfeini'r tyrbin hyd at isafswm o 1.0m o ddyfnder o dan lefel y ddaear. Bydd yn rhaid gweithredu'r cynllun a gymeradwyir yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol cyn pen 12 mis ar ôl y dyddiad terfynu'r caniatâd cynllunio a roddir drwy hyn.

Dyma'r rhesymau dros yr amodau:

1. Er mwyn cydymffurfio â darpariaethau Adran 91 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

2. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth ac er mwyn i'r Awdurdod Cynllunio Lleol gadw rheolaeth ar ddefnydd o'r tir yn y tymor hwy.

3. Er mwyn osgoi amheuaeth, er mwyn caniatáu i'r Awdurdod Cynllunio Lleol gadw rheolaeth ar y datblygiad ac er budd amwynder preswyl a chadwraeth natur.

4. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth ac er budd harddwch.

5. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth ac er budd harddwch.

6. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth ac er budd harddwch.

7. Er budd harddwch.

8. Er budd harddwch a chadwraeth natur.

9. Er budd harddwch.

10. Er budd amwynder deiliaid eiddo preswyl yn yr ardal leol.

11. Er mwyn sicrhau bod mesurau digonol ar waith i fonitro ac asesu sŵn o'r tyrbin os ceir cwynion, ac er budd amwynder deiliaid eiddo preswyl yn yr ardal leol.

12. Er mwyn caniatáu i'r Awdurdod Cynllunio Lleol gadw rheolaeth ar y datblygiad ac er budd amwynder deiliaid eiddo preswyl yn yr ardal leol.

13. Er mwyn sicrhau bod mesurau digonol ar waith i fonitro ac asesu sŵn o'r tyrbin os ceir cwynion, ac er budd amwynder deiliaid eiddo preswyl yn yr ardal leol.

14. Er budd amwynder deiliaid eiddo preswyl yn yr ardal leol.

15. Er mwyn sicrhau bod trefniadau digonol wedi'u sefydlu i adfer y safle, er budd harddwch.

16. Er mwyn sicrhau adferiad y safle yn y tymor hir, er budd harddwch.

**NODYN I'R YMGEISYDD:**

Y Weinyddiaeth Amddiffyn

Fe'ch atgoffir o'r angen i hysbysu'r Weinyddiaeth Amddiffyn am y canlynol:

- dyddiad dechrau a gorffen adeiladu;
- uchder mwyaf yr offer adeiladu; a
- lledred a hydred y tyrbin.

Manylion cyswllt Y Weinyddiaeth Amddiffyn: MOD Safeguarding, Defence Infrastructure Organisation, Kingston Road, Sutton Coldfield, West Midlands, B75 7RL
Ffôn: 0121 311 3781
Ffacs: 0121 311 2218
Ebost: DIO-Safeguarding-Wind@mod.uk